

DWEUD EICH DWEUD

# SYLW AR WASANAETHAU COF

Mae gwasanaethau cof yng Nghymru a Lloegr yn cymryd rhan mewn archwiliad cenedlaethol i edrych ar brofiad pobl o fynediad, amserau aros, ac ansawdd gofal yn ystod y pandemig COVID-19.

Gallai'ch adborth wella gwasanaethau cof!


## GWOBRAU I'W HENNILL - CYFLE I ENNILL £50

Dilynwch y ddolen ar ddiwedd yr arolwg. Ni ellir cysylltu'r manylion a gyflwynir gyda'ch ymatebion i'r arolwg.

Alzheimer's Society United Against Dementia


NAD NATIONAL AUDIT OF DEMENTIA

RC PSYCH ROYAL COLLEGE OF PSYCHIATRISTS




## Ar gyfer beth mae'r arolwg hwn?

Mae’r arolwg yn holi ynghylch profiadau pobl sydd wedi eu diagnosio â dementia yn ystod y pandemig. Rydym eisiau clywed sut mae pobl yn teimlo am apwyntiadau yn cael eu cynnal dros gyfrifiadur neu dros y ffôn.




## Pwy ddylai gwblhau hyn?

Hoffem adborth gan bobl sydd wedi mynychu'r gwasanaeth, a’r aelodau teulu sy'n eu cefnogi.



## Beth sy’n digwydd i’r wybodaeth?

Bydd yr wybodaeth a roddwch yn cael ei chasglu mewn adroddiad. Defnyddir hyn i helpu'r gwasanaeth hwn, a gwasanaethau eraill, i wella safonau gofal trwy amlygu pethau sy'n cael eu gwneud yn dda a meysydd sydd angen eu gwella.



## Sut fydd fy nghyfrinachedd yn cael ei sicrhau?

Mae’r holl wybodaeth y gofynnir amdani yn ddienw. Eich dewis chi yw cymryd rhan yn yr arolwg ac mae’n ddewisol felly ni all effeithio ar eich gofal mewn unrhyw fodd.

## Sut ydw i’n cwblhau’r holiadur?

Holiadur ar-lein yw hwn. Sganiwch y cod QR ar y chwith neu ewch i bit.ly/NADMemorySurvey

**Royal College of Psychiatrists’ Centre for Quality Improvement**

*21 Prescot Street • Llundain • E1 8BB*

*Ffôn: 0208 618 4272  E-bost: nad@rcpsych.ac.uk*

*Gwefan: www.nationalauditofdementia.org.uk*